# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-07-08)

### SLC128

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

**Teitl: Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2008**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cig (Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd) (Cymru) (Rhif 2) 2007, ac yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi mewn perthynas â Chymru Erthyglau 26 a 27 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau bod cydymffurfedd â'r gyfraith ynglŷn â bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid.

**Gweithdrefn: Negyddol**

Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar sail yr hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(vii) (anghysondebau rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg):

Yn y tabl sy'n ymddangos ym mharagraff 4 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau, cyfeirir yn y fersiwn Saesneg at 'Bovine animals aged less than 8 months at slaughter, and animals aged 8 months or more at slaughter'.
Fodd bynnag, yn y fersiwn Gymraeg mae'r un cyfeiriadau yn cael eu cyfleu mewn wythnosau ac nid misoedd.
Felly mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Rheoliadau yn anghyson [Rheol Sefydlog 15.2(vii)].

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-** Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllir uchod ac mae'n bwriadu gwneud Rheoliadau Diwygio cyn gynted â phosibl a beth bynnag dim hwyrach na 31 Mai 2008.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Mawrth 2008